| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cyngor** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **24 Chwefror 2015** |
| **Aelod Arweiniol:** | **Cynghorydd Julian Thompson-Hill** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Pennaeth Cyllid ac Asedau** |
| **Teitl:** | **Cynllun Cyfalaf 2014/15 - 2017/18 ac Argymhellion y Grŵp Buddsoddi Strategol** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad yn rhoi diweddariad i'r aelodau ar elfen 2014/15 y Cynllun Cyfalaf. Hefyd ynghlwm mae argymhellion y Grŵp Buddsoddi Strategol o gynigion Cyfalaf a argymhellir ar gyfer eu cynnwys yn y Cynllun Cyfalaf.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Darparu Cynllun Cyfalaf diwygiedig i'r aelodau gan gynnwys diweddariad ar brosiectau mawr a'r cynllun corfforaethol.

Mae'r Atodiadau canlynol wedi cael eu cynnwys:

- Atodiad 1: Crynodeb o gyllid cynllun cyfalaf
- Atodiad 2: Crynodeb o gynllun cyfalaf gan Bennaeth Gwasanaeth
- Atodiad 3: Manylion amcangyfrifon cynllun
- Atodiad 4: Diweddariad ar brosiectau cyfalaf mawr
- Atodiad 5: Manylion argymhellion gan Grŵp Buddsoddi Strategol
- Atodiad 6: Bidiau Cyfalaf a argymhellir i'w cymeradwyo
- Atodiad 7: Darpariaeth ysgolion cynradd Ardal Rhuthun

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod aelodau'n nodi sefyllfa ddiweddaraf elfen 2014/15 y Cynllun Cyfalaf a'r diweddaraf ar brosiectau mawr.

3.2 Bod yr aelodau yn cefnogi argymhelliad y Grŵp Buddsoddi Strategol fel y manylir yn Atodiad 5 a'u crynhoi yn Atodiad 6.

3.3 Cymeradwyo Cynllun Cyfalaf 2015/16.

3.4 Cymeradwyo achosion busnes a dyraniad cyfalaf ar gyfer darpariaeth Cynradd Ardal Rhuthun:

- Amnewid y ddarpariaeth bresennol Ysgol Stryd y Rhos/Ysgol Penbarras ar safle Glasdir.
- Adeilad ysgol newydd ar gyfer Ysgol Carreg Emlyn.
- Adeilad ysgol newydd ar gyfer ysgol ardal Llanfair a Phentrecelyn, yn amodol ar ganlyniad y cynigion trefniadaeth ysgolion.

## 4. Manylion yr Adroddiad

### 4.1 Gwariant Cyfalaf 2014/15

Rhoddwyd yr adroddiad diwethaf ar y Cynllun Cyfalaf llawn i'r Cyngor ym mis Medi 2014. Mae diweddariadau misol yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet. Mae'r Cynllun Cyfalaf Amcangyfrifedig bellach yn £35.9miliwn. Mae'r Cynllun wedi cael ei ddiweddaru ychydig ers adrodd arno i'r Cabinet ar 17 Chwefror 2015.

### 4.2 Prif Brosiectau

Mae Atodiad 4 yn rhoi diweddariad ar y prosiectau mawr canlynol:

- Datblygiad Harbwr y Rhyl
- Y Rhyl yn Symud Ymlaen
- Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif – Ysgol Gymunedol Bodnant
- Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif – Ysgol Newydd y Rhyl
- Datblygiad y Nova
- Datblygiad Arfordirol Gorllewin y Rhyl – Ph 3

### 4.3 Cynllun Corfforaethol

Mae'r Cynllun Corfforaethol 2012-17 yn nodi uchelgais y Cyngor i sicrhau buddsoddiad cyfalaf sylweddol yn ei flaenoriaethau dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, ac mae'r ffigurau diweddaraf yn tynnu sylw at y ffaith y bydd angen i'r Cyngor fuddsoddi oddeutu £119.047miliwn o gyllid cyfalaf.

Bydd cyfran uchel o'r gwaith hwn yn cynnwys cyflwyno pum prosiect o fewn y cynigion Band A ar gyfer Ysgolion yr 21ain Ganrif.

| | **Cyllid y Cyngor** £miliwn | **Cyllid Allanol** £miliwn |
|---|---:|---:|
| Ysgolion yr 21ain Ganrif (rhaniad 50:50) | 22.655 | 22.655 |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif – Ffydd (rhaniad 85:15) | 3.572 | 20.242 |
| Moderneiddio Addysg | 16.907 | 0 |
| Tai Gofal Ychwanegol a Chefndy | 7.500 | 14.000 |
| Priffyrdd | 6.600 | 4.916 |
| **Cyfanswm** | **57.234** | **61.813** |

Mae'r Cynllun yn gwneud tybiaethau allweddol ar ffactorau amrywiol, gan gynnwys cyllid gan Lywodraeth Cymru ac adnoddau'r cyngor ei hun, amcangyfrif o gostau ac amseriad y gwaith.

Mae crynodeb o amcangyfrif diweddaraf y Cynllun Corfforaethol yn cael ei ddangos yn Atodiad 1.

4.4 **Derbyniadau Cyfalaf**

Mae'r Cynllun Cyfalaf yn ddibynnol am ran o'i gyllid ar dderbyniadau cyfalaf a gynhyrchir drwy werthu asedau'r Cyngor. Mae'r tabl isod yn dangos y derbyniadau a gyflawnwyd yn 2014/15. Yn ychwanegol, mae yna nifer o waredaidau posibl yn cael eu datblygu.

| | **2014/15 £000** |
|---|---|
| Tir yng nghefn safle HM Stanley, Llanelwy | 322 |
| Tir, hen safle Lladd-dy, Rhuallt | 65 |
| Symudydd Cychod, Harbwr y Foryd | 26 |
| **CYFANSWM** | **413** |

4.5 **Dangosyddion Darbodus**

Pob blwyddyn mae'r Cyngor yn pennu Dangosyddion Darbodus sy'n pennu terfynau darbodus ar ei fenthyca. Dyled y Cyngor ar hyn o bryd yw £151m. Mae hyn o fewn y Ffin Weithredol (£215 miliwn) a Therfyn Awdurdodedig (£220 miliwn) ac mae'n llai na'r rhagolwg Nawdd Cyfalaf Gofynnol (£203.9 miliwn). Mae hyn yn golygu bod y Cyngor yn cadw at y Cod Darbodus Cyllid Cyfalaf ac nid yw'n benthyca mwy na'i anghenion cyfalaf.

Mae'r gymhareb costau ariannu i'r llif refeniw net ar gyfer 2014/15 yn 6.93%. Mae'r gymhareb hon yn arwydd o fforddiadwyedd ac mae'n tynnu sylw at oblygiadau refeniw gwariant cyfalaf presennol ac arfaethedig trwy nodi cyfran o'r gyllideb refeniw sydd ei angen i gwrdd â chostau benthyca.

4.6 **Argymhellion y Grŵp Buddsoddi Strategol (GBS)**

Mae'r Grŵp Buddsoddi Strategol wedi adolygu ceisiadau cyfalaf ac wedi gwneud argymhellion i'w cynnwys yn y Cynllun Cyfalaf o 2015/16 ymlaen. Mae'r rhain wedi eu manylu yn Atodiad 5 a'u crynhoi yn Atodiad 6.

4.7 **Cynigion Adolygiad Ardal Ysgolion Cynradd Rhuthun**

Fel rhan o Gynllun Corfforaethol y Cyngor gwnaeth y Cyngor ymrwymiad, yn ychwanegol i'r cyllid ar gyfer Ysgolion yr 21ain ganrif, y byddwn yn ceisio buddsoddi adnoddau pellach tuag at weithredu'r adolygiadau ardal, gwaith adnewyddu a gwelliannau eraill i'n hysgolion.

Ym mis Gorffennaf 2014, rhoddodd y Cabinet awdurdod i gychwyn astudiaethau dichonoldeb mewn perthynas â'r tri phrosiect, a bydd eu cwblhau yn destun penderfyniadau cyllideb yn y dyfodol.

Yng nghyfarfod y Cabinet ar 13 Ionawr 2015, penderfynwyd argymell i'r Cyngor gymeradwyo'r achosion busnes a'r dyraniadau cyfalaf ar gyfer:-

- Ysgol gynradd newydd ar safle Glasdir yn Rhuthun yn lle'r adeiladau ysgol presennol ar gyfer Ysgol Penbarras ac Ysgol Stryd y Rhos
- Adeilad ysgol newydd yng Nghlocaenog ar gyfer Ysgol Carrog Emlyn yn lle'r adeiladau ysgol presennol yng Nghlocaenog a Chyffylliog
- Adeilad ysgol newydd ar gyfer ysgol ardal i wasanaethu cymunedau Llanfair a Phentrecelyn

Mae crynodeb o'r sail resymegol ar gyfer y prosiectau yn Atodiad 7 ac yn esbonio'r rhesymau am y buddsoddiadau arfaethedig. Yn eu cyfarfod ar 16 Rhagfyr 2014, bu’r Grŵp Buddsoddi Strategol yn ystyried yr Achosion Busnes llawn ar gyfer y prosiectau ac argymell eu cymeradwyaeth.

I gefnogi'r cynigion hyn, yng nghyfarfod y Cabinet rhoddwyd cymeradwyaeth i gychwyn dau gynnig trefniadaeth ysgolion fydd yn cael ei datblygu ochr yn ochr â’r prosiectau buddsoddi yma. Dechreuodd proses o ymgynghori ar y ddau gynnig ar ddechrau Chwefror 2015.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae prosiectau wedi cael eu hadolygu er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni Amcanion Corfforaethol y Cyngor.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 **Goblygiadau o Ran y Gost**

Mae'n angenrheidiol sicrhau bod y Cynllun Cyfalaf yn cael ei ariannu'n llawn gan fod yn rhaid i unrhyw gost ychwanegol, sy’n fwy na chyfanswm y cyllid sydd ar gael, gael ei ariannu o gyllidebau refeniw.

6.2 **Goblygiadau Staffio/TG/Llety**

Mae'n ofynnol llenwi ffurflen Achos Busnes ar gyfer pob prosiect newydd a thrafod goblygiadau penodol yn ystod y cam hwnnw.

6.3 **Asesiad o Effaith ar Newid Hinsawdd - Lliniaru ac Addasu:**

Mae prosiectau cyfalaf newydd yn destun archwilio gan y Grŵp Buddsoddi Strategol. Bydd pob achos busnes yn dangos, lle bo’n briodol allyriadau tunnell carbon perthnasol cyn ac ar ôl prosiect, gan nodi a yw'r prosiect yn allyriad carbon cadarnhaol, negyddol neu niwtral. Yn ogystal, mae angen sicrhau bod prosiectau cyfalaf newydd

yn ddiogel ar gyfer y dyfodol ac yn gallu addasu i newid yn yr hinsawdd.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad?**

Mae pob prosiect newydd yn amodol ar AEG unigol.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

Mae prosiectau'n cael eu paratoi ac yna'n cael eu monitro mewn ymgynghoriad â Phenaethiaid Gwasanaeth. Mae'r ffigurau a ddefnyddir yn yr adroddiadau yn seiliedig ar yr amcangyfrifon diweddaraf sydd ar gael.

Mae pob aelod wedi cael gwybod am y cynigion, gyda chopïau caled o'r ceisiadau wedi eu lleoli yn ystafell yr Aelodau a cheisiadau prosiect ar gael i'w gweld ar Mod.Gov.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Ni ddylai unrhyw brosiect ddechrau heb gael ei gyllido'n llawn yn erbyn cynllun prosiect cadarn a'r prosiect yn cael ei drafod gyda'r Grŵp Buddsoddi Strategol.

Mae angen i Noddwyr Prosiect arfer rheolaeth dynn dros eu gwariant cyfalaf er mwyn sicrhau bod y prosiectau'n gallu aros o fewn eu cyllidebau.

Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo Cynllun Corfforaethol uchelgeisiol. Yn sail i fforddiadwyedd y Cynllun mae rhagdybiaethau allweddol ynghylch cyllidebau refeniw ac arian. Mae maint y Cynllun Corfforaethol yn golygu y bydd yn ymestyn dros gyfnod o 5-7 mlynedd ac yn sicr yn golygu wrth iddo ddatblygu, y bydd gwahaniaethau amseru rhwng y rhagdybiaethau a gynlluniwyd a'r rhagdybiaethau gwirioneddol ynghylch y defnydd o arian. Gall hyn olygu y gall cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd gynyddu nes y byddant wedi'u hymrwymo. Fodd bynnag mae'n hanfodol cydnabod, os yw adnoddau'n cael eu hailgyfeirio yn ystod oes y Cynllun, y bydd yn rhaid i'r Cyngor benderfynu pa brosiectau a nodwyd yn flaenorol y byddai am eu canslo.

Cost y tri phrosiect cyfalaf ar gyfer adolygiad ardal Rhuthun yw oddeutu £15 miliwn. Gan nad yw'r cynlluniau yn rhan o'r prosiectau Ysgolion yr 21ain Ganrif Band A, bydd rhaid i'r Cyngor ariannu'r holl gostau cyfalaf sy'n gysylltiedig â'r cynigion. Mae buddsoddi ar y raddfa hon yn dod â risgiau ariannol cysylltiedig ac felly mae'n hanfodol rheoli a monitro'r prosiect a'r agweddau ariannol. Dylai'r cynigion gynhyrchu arbedion refeniw y gellir eu hail-fuddsoddi i mewn i raglen fuddsoddi'r Cyngor i ariannu benthyca. Mae cwblhau'r tri phrosiect hefyd yn rhoi potensial i gynhyrchu derbyniadau cyfalaf.

**10. Pa risgiau sydd yna, ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 **Risgiau sy'n gysylltiedig â pheidio cytuno â'r argymhellion**

Byddai risgiau posibl yn cynnwys cynlluniau ddim yn symud ymlaen, colli grant ac amhariad ar wasanaethau.

10.2 **Risgiau sy'n gysylltiedig â chytuno â'r argymhellion**

Nid oes unrhyw brosiect cyfalaf heb risg. Fodd bynnag, mae'r holl gynlluniau'n cael eu hadolygu gan y Grŵp Buddsoddi Strategol ac maent hefyd yn destun monitro ac adrodd misol parhaus.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Mae Rhan 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 yn pennu'r trefniadau ar gyfer cyllido cyfalaf o 2004/05 ymlaen.